**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

10 Hydref 2025

## Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgorau yn ystod y Chweched Senedd

Annwyl Lywydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf 2025, lle gwnaethoch ofyn am ein barn ynglŷn â sut mae'r pwyllgorau wedi gweithredu yn ystod y Chweched Senedd. Gwnaethom drafod y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori yn ystod ein cyfarfod ar 1 Hydref. Dyma grynodeb o'r prif bwyntiau a drafodwyd:

### Diwylliant Pwyllgorau

Yn ystod y Chweched Senedd, rydym wedi archwilio deddfwriaeth sylfaenol a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, rydym wedi craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn flynyddol, ac rydym wedi cynnal nifer o ymchwiliadau polisi.

Ar ddechrau'r Senedd hon, gwnaethom gynnal sesiwn cynllunio strategol gyda hwylusydd allanol, gan bennu ein blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer y tymor nesaf – yn benodol, argaeledd tai priodol a'r broses o'u darparu, a chynaliadwyedd llywodraeth leol yng Nghymru. Wedi hynny, gwnaethom gynnal dwy sesiwn cynllunio strategol arall er mwyn adolygu amcanion y Pwyllgor a'i ffyrdd o weithio, ac er mwyn cytuno ar flaenoriaethau o ran ein gwaith yn y dyfodol sy'n cyd-fynd â'n strategaeth.

Roeddem yn teimlo bod y sesiynau hyn yn effeithiol o ran darparu ffocws a chonsensws clir mewn perthynas â rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol. Mae'r sesiynau dilynol a gynhaliwyd wedi bod yn werthfawr, yn enwedig yn sgil newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor, o ran sicrhau bod ymchwiliadau polisi yn parhau i fod yn gydnaws â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, ac o ran

hyrwyddo cydlyniant ymhlith y pwyllgorau a dealltwriaeth gyffredin ynghylch y ffyrdd o weithio a ffefrir. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod newidiadau cyson yn aelodaeth y Pwyllgor yn amharu ar barhad ein gwaith a'r broses o ddatblygu arbenigedd polisi. Byddai Aelodau sy'n ymuno yng nghanol y tymor yn elwa ar weithgarwch cynefino mewn perthynas â'r meysydd polisi o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Mae cael cefndir ym meysydd polisi'r Pwyllgor neu wybodaeth berthnasol am y pynciau dan sylw yn ddefnyddiol ac yn gwella'r gwaith craffu a wneir.

Yn ystod y Seithfed Senedd, byddem yn argymell bod Aelodau, fel rhan o'u gweithgarwch cynefino ffurfiol, yn cael hyfforddiant i'w helpu i ddeall rolau a disgwyliadau'r Cadeirydd ac Aelodau eraill y Pwyllgor, yn enwedig gan ei bod yn debygol y bydd nifer fawr o Aelodau newydd yn cael eu hethol ym mis Mai 2026. Gwnaethom nodi hefyd y gallai naws a deinameg cyfarfodydd fod yn wahanol yn y Senedd nesaf, a gallai hyn olygu bod angen sgiliau cadeirio gwahanol a bod angen hyfforddiant pellach ar Gadeiryddion.

**Trefniadaeth busnes y pwyllgorau**

Mae cylch gwaith ein Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio gweinidogol Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai. Rydym wedi cynnal nifer o ymchwiliadau ac wedi gwneud gwaith craffu deddfwriaethol ar draws y ddau faes polisi. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud mwy o waith ar ymchwiliadau polisi sy'n ymwneud â thai, o'i gymharu â llywodraeth leol. Ni oedd amserlen wreiddiol y pwyllgorau o gymorth, gan fod slot cyfarfod wedi'i ddyrannu i'r Pwyllgor bob pythefnos ar ddydd Mercher, gan olygu nad oedd modd inni neilltuo digon o amser ar gyfer y ddwy ffrwd waith. Yn ystod tymor yr hydref 2021, gwnaethom gynnal un ymchwiliad yn unig ym maes tai, ochr yn ochr â'n gwaith craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol a'r gyllideb ddrafft.

Fel Pwyllgor polisi a deddfwriaeth, rydym wedi craffu ar bedwar Bil yn ystod y Senedd hon. Mae ein gwaith ar ymchwiliadau wedi ein galluogi i ddatblygu gwybodaeth am feysydd polisi o fewn ein cylch gwaith a dealltwriaeth ohonynt, ac rydym wedi cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i'n gwaith craffu deddfwriaethol.

Penodwyd chwe Aelod i wasanaethu ar ein Pwyllgor. Hyd yn hyn, nid ydym wedi gorfod atal na gohirio unrhyw gyfarfodydd yn sgil problemau cworwm, er ein bod wedi gorfod gohirio dechrau cyfarfod ar un achlysur. Rydym wedi dod yn agos at gael problemau cworwm ar sawl achlysur, a gwnaethom drafod y ffaith byddai hyn yn fwy o broblem pe baem yn Bwyllgor llai o faint. Mae'r Pwyllgor ar ei ffurf bresennol wedi gweithio'n dda. Rydym wedi cynnal ymagwedd golegol o ran ein gwaith, ac mae Aelodau newydd wedi elwa ar y profiad o ddysgu gan Aelodau mwy profiadol.

**Rhyngweithio â phwyllgorau**

Rydym yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd sydd ynghlwm wrth drefniant sy'n caniatáu i Aelodau ymuno â chyfarfodydd o bell. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau o Ogledd Cymru ar ddydd Iau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai bod yn bresennol yn y cnawd yw'r opsiwn gorau ar gyfer

craffu ar waith Gweinidogion a chraffu ar ddeddfwriaeth yng Nghyfnod 2. Gwnaethom nodi hefyd fod cyfarfodydd hybrid yn hyrwyddo hygyrchedd drwy ddileu rhwystrau daearyddol, sy'n golygu y gallwn ymgysylltu â chynulleidfa ehangach. Fodd bynnag, gwnaethom gydnabod bod lle i wella o hyd, yn enwedig o ran clywed "lleisiau sy'n anhysbys".

O ran hygyrchedd ac ymgysylltu, rydym wedi ceisio gwneud addasiadau er mwyn galluogi pobl sydd â phrofiad byw i rannu eu sylwadau personol. Er enghraifft, wrth wneud gwaith ar ddiogelwch adeiladau, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan berson anabl a oedd yn preswylio mewn adeilad uchel, a hynny ar ffurf clip fideo byr i'w chwarae ar ddechrau'r sesiwn. Nid oedd gan y tyst hwnnw unrhyw leferydd gwirfoddol, ac roedd yn dioddef o diciau lleisiol ac echddygol anwirfoddol. Yn ogystal â pharatoi'r clip fideo, gwnaeth y tyst gyfraniadau pellach drwy ddefnyddio'r blwch sgwrsio ar Zoom i ateb cwestiynau gan Aelodau, gyda'r tîm clercio yn darllen yr atebion hyn.

Gwnaethom hefyd annog Sipsiwn a Theithwyr, un o'r cymunedau sy'n fwyaf agored i niwed a rhagfarn, i rannu eu safbwyntiau am y broses o ddarparu safleoedd. Byddem fwy na thebyg yn disgrifio'r ymchwiliad hwnnw fel un o'n hymchwiliadau polisi mwyaf llwyddiannus. Gwnaethom gasglu tystiolaeth parthed profiadau byw Sipsiwn a Theithwyr drwy gynnal ymweliadau â safleoedd, drwy gynnal grwpiau ffocws, a thrwy fod yn hyblyg o ran sut y gellid cyflwyno tystiolaeth, gan fod lefelau uchel o anllythrennedd ymhlith y gymuned ymylol hon. Cynhaliwyd ymchwiliad dilynol gennym i edrych ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran rhoi ein hargymhellion gwreiddiol ar waith, a hynny yn sgil cael gohebiaeth a dynnodd sylw at y ffaith nad oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud, a'r ffaith bod y portffolio hwn yn destun tanwariant. Roedd y gweithgarwch hwn yn gydnaws â'n hamcanion yn y Chweched Senedd, sef: gwrando, dysgu a pharhau i wneud gwahaniaeth o ran y broses o ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol a thai yng Nghymru; ac ystyried ymchwiliadau fel materion byw, nid digwyddiadau untro. Roeddem yn siomedig iawn i ganfod nad oedd fawr ddim cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu ein hargymhellion. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i gyflawni dros bobl Cymru, ac mae pwyllgorau'n chwarae rhan hanfodol wrth eu dwyn i gyfrif. Mae'n galonogol bod y Gweinidog cyfrifol yn Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'n pryderon, a bod cynnydd wedi'i wneud yn sgil hynny.

Gwnaethom drafod hefyd allu'r Aelodau a'r tystion i gyfrannu yn eu dewis iaith, sef Saesneg neu Gymraeg, fel ieithoedd swyddogol y Senedd. Er bod yr Aelodau wedi canmol proffesiynoldeb ac ansawdd uchel y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, nodwyd nad yw'r profiad o gyfrannu yn y Gymraeg cystal â'r profiad o gyfrannu drwy gyfrwng y Saesneg. Yn benodol, roedd teimlad bod defnyddio clustffonau i glywed y gwasanaeth cyfieithu yn gallu bod yn rhwystr. O ystyried datblygiadau technolegol, dylai fod ffordd well o ddarparu'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, ac rydym yn gobeithio gweld y profiad hwn yn gwella erbyn y Seithfed Senedd.

Gobeithio bod ein hymateb yn ddefnyddiol.

Cofion cynnes,

Senedd Cymru
Welsh Parliament

John

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.